COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PENODIADAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL PWYLLGOR 2/3, SWYDDFEYDD DINESIG STRYD YR ANGEL PEN Y BONT DYDD IAU, 18 EBRILL 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HM Williams | N Clarke | RM James | T Giffard |
| D Patel | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |

27. DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cynghorydd T Giffard fod ganddo fuddiant personol yn eitem rhif 6 gan fod un o'r ymgeiswyr am swydd y Prif Weithredwr yn byw yn ei etholaeth, ac roedd yr unigolyn hwn hefyd wedi gofyn iddo, fel yr Aelod sy'n cynrychioli ward Bracla, ymchwilio i fater yn y ward honno.

28. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodi dyddiedig 6 Mehefin 2018, fel cofnod cywir.

29. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, o dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, a hynny pan fyddai'r Aelodau'n trafod yr eitem a ganlyn gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio o dan Baragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Ar ôl cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, y dylid trafod yr eitem mewn sesiwn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai angen datgelu gwybodaeth a oedd wedi'i heithrio.

30. Y BROSES BENODI: PRIF WEITHREDWR

31. CYMERADWYO'R COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNWYD: Cymerdwyo cofnodion eithriedig cyfarfod y Pwyllgor Penodi dyddiedig 6 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:50